James Gilmour 1843–1891

Cenhadwr ym Mongolia

Ganwyd James Gilmour yn Cathkin, plwyf Carmunnock, nid nepell o Glasgow, ar 12 Mehefin 1843. Ef oedd y trydydd o chwe mab i James ac Elizabeth Gilmour. Roedd ei dad yn saer ac roedd amgylchiadau ariannol y teulu yn gyffyrddus. Ar y Sul mynychent eglwys gynulleidfaol yn Glasgow. Addysgwyd Gilmour yn ysgol Bushyhill yn Cambuslang, ysgol ieuenctid Gorbals yn Glasgow ac ysgol uwchradd Glasgow. Ym 1862 dechreuodd fynychu dosbarthiadau ym Mhrifysgol Glasgow lle y dangosodd fedrusrwydd mawr gyda Groeg a Lladin. Tra oedd yn Glasgow cafodd dröedigaeth ac aeth i goleg diwinyddol yr Eglwys Gynulleidfaol yng Nghaeredin. Tra oedd yno fe'i derbyniwyd i fod yn genhadwr gyda Chymdeithas Genhadol Llundain (London Missionary Society) ac fe'i hanfonwyd i Goleg Cheshunt, canolfan hyfforddi'r LMS, lle y bu hyd 1869.

Anfonwyd ef gan yr LMS i ailagor cenhadaeth ym Mongolia. Bu William Swan ac Edward Stallybrass yn cenhadu gyda'r Mongoliaid Buryat yn Siberia o 1817 ymlaen ond ataliwyd y gwaith gan yr awdurdodau Rwsiaidd ym 1840. Llugoer oedd ymateb Gilmour ar y dechrau i'r ffaith ei fod yn cael ei anfon i ardal mor anghysbell i weithio ymhlith Bwdhyddion lamaidd. Er hynny penderfynodd fynd ac fe'i hordeiniwyd yn Eglwys Awstin, Caeredin, ar 10 Chwefror 1870 a theithiodd i China. Cyrhaeddodd Peking (Beijing) ym mis Mai lle y cyfarfu â Dr John Dudgeon a Joseph Edkins. Cynghorwyd ef i aros yno am dair blynedd yn dysgu Tsieinëeg a Mongoleg ond penderfynodd ef o ganlyniad i gyflafan y Tientsin (Tianjin) fynd i Mongolia. Ar ei daith gyntaf teithiodd gyda masnachwyr Rwsiaidd i Kiakhta oedd ar y ffin gyda Rwsia. Arhosodd yno am gyfnod mewn yurt gyda lama (person ac nid yr anifail) lle y dysgodd Fongoleg. Ym 1871 dychwelodd i Peking a'r flwyddyn ddilynol aeth ar ail daith i ardal amaethyddol gogledd ddwyrain Mongolia. Wedi cloriannu'r posibiliadau penderfynodd ganolbwyntio ei waith efengylu ar grwydriaid y gwastadeddau gan fod eu pebyll bob amser yn agored i ddieithriaid. Golygai hynny y gallai gymysgu yn rhwydd gyda hwy. Yr

anhawster mawr a wynebodd trwy gydol ei yrfa oedd nad oedd y Mongoliaid na'r Rwsiaid yn awyddus iddo aros yn Mongolia. Yn ystod y cyfnod o ugain mlynedd y bu yno defnyddiai Peking fel canolfan barhaol er mwyn mynd ar deithiau blynyddol i Mongolia. Teithiodd gan fwyaf yn ardal Kalgan ar ffin China ar gefn camel gan grafu byw mewn pebyll a thafarndai llwm. Byddai'n mynd am fisoedd ben bwy gilydd heb weld unrhyw bobl eraill o'r gorllewin. Mabwysiadodd hefyd ddiwyg a dillad Mongolaidd. Yn ddiweddarach yn ei yrfa teithiai gyda phabell las gan ei gosod gerllaw temlau Bwdïaidd. Yna byddai'n pregethu'r Efengyl ac yn dosbarthu moddion. Effeithiodd yr unigrwydd a'r diffyg ymateb arno ac fe anfonodd adroddiad yn ôl i'r LMS ym 1873 yn dweud, 'Rwyf yn y felan.' Ym 1874 cyfaddefodd nad oedd unrhyw Fongol wedi dod i gredu yn Iesu Grist ac nad oedd wedi dod ar draws unrhyw un oedd ag unrhyw ddiddordeb yn y pwnc.

Daeth yn gyfarwydd iawn ag arferion a thraddodiadau'r Mongoliaid ac ysgrifennodd amdanynt, o dan y ffug enw Hoinos a olygai 'yr un o'r gogledd', yn y *Chinese Recorder* a gyhoeddwyd yn Shanghai. Dechreuodd ohebu gydag Emily Prankard, cenhades gyda'r LMS yn Peking, ac fe briododd y ddau yn Shanghai. Am gyfnod, hyd nes iddynt gael plant, byddai ei wraig yn mynd gydag ef ar ei grwydradau trwy Fongolia. Er y gwaith caled nid oedd unrhyw Fongol wedi derbyn yr Arglwydd Iesu. Ym 1882 daethant am yr unig seibiant a gawsant ym Mhrydain fel teulu. Cyhoeddodd y Religious Tract Society *Among the Mongols* yn seiliedig ar erthyglau Gilmour a bu ymateb rhagorol i'r gyfrol. Wedi dychwelyd i Fongolia wynebodd ragor o siomedigaeth oherwydd diffyg ymateb a arweiniodd at iselder ysbryd, ac ar ben hyn bu farw ei wraig ym 1885 a'i fab ieuengaf ym 1887. Yn y diwedd aeth y cwbl yn drech nag ef. Cafodd anhwylder meddwl a dychwelodd i Brydain ym 1889 i wella gan aros gyda theulu yn Hamilton. Flwyddyn yn ddiweddarach dychwelodd i Fongolia ond fe'i trawyd yn sâl gyda typhus a bu farw ar 21 Mai 1891 yn Tientsin ac yno y claddwyd ei weddillion. Codwyd cofeb wenithfaen er cof amdano yn Hamilton.